OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 3294 (Cy.291) (C.146)

TRAFNIDIAETH, CYMRU

Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth Leol 2008 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*14 Rhagfyr 2009*
Yn dod i rym - -	*31 Ionawr 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 134(6) o Ddeddf Trafnidiaeth Leol 2008(**1**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth Leol 2008 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2010 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Trafnidiaeth Leol 2008.

Cychwyn ar ddarpariaethau trafnidiaeth leol o ran Cymru

2. 31 Ionawr 2010 yw'r diwrnod penodedig i ddarpariaethau canlynol y Ddeddf ddod i rym–

(a) Adran 13 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym).

(b) Adrannau 14—18.

(c) Adran 68(2).

(ch) Adran 131 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r canlynol —

Rhan 1 o Atodlen 7,

Yn Rhan 2 o Atodlen 7, y diddymiadau sy'n ymwneud ag adran 116(2) ac Atodlen 10 i Ddeddf Trafnidiaeth 2000(**2**),

Yn Rhan 2 o Atodlen 7, y diddymiad sy'n ymwneud â Deddf Fenter 2002(**3**),

Yn Rhan 3 o Atodlen 7, y diddymiadau sy'n ymwneud ag Adrannau 74, 75 a 79 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985(**4**),

(**1**) 2008 p.26.
(**2**) 2000 p.38.
(**3**) 2002 p.40.
(**4**) 1985 p.67.